**Rhif: WG49772**

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Adolygu'r Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen

Ebrill 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx ISBN Digidol 978-1-83577-986-6

## Trosolwg

Nod y Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen ("y Cod") yw rhwystro a rheoli ymlediad Llysiau'r Gingroen ond dim ond pan fyddant yn fygythiad i iechyd a lles anifeiliaid pori. Cyhoeddwyd y cod presennol yn 2011. Rydym yn bwriadu gwneud newidiadau i ddiweddaru'r cod. Mae'r newidiadau yn cynnwys:

- diweddaru enwau sefydliadau a chysylltiadau perthnasol
- diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol lle cafwyd deddfwriaeth newydd
- newidiadau i'r cyngor ar yr arfer gorau

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y newidiadau a gynigir i'r Cod.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran Tirweddau, Natur a Choedwigaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: plant.health@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a'r holl ddogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Revision of the Code of Practice to Prevent and Control the Spread of Ragwort: consultation document (gov.wales)

# Cynnwys

Cynnwys.......... 3
Cyflwyniad.......... 4
Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad .......... 4
Ymatebion i'r ymgynghoriad.......... 5
Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf .......... 10
Atodiad 1.......... 11
Rhestr o’r ymatebwyr: .......... 11

## Cyflwyniad

Nod y Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen ("y Cod") yw rhwystro a rheoli ymlediad Llysiau'r Gingroen ond dim ond pan fyddant yn fygythiad i iechyd a lles anifeiliaid pori. Nid cael gwared ar lysiau'r gingroen yw nod y canllawiau hyn, gan eu bod yn blanhigion cynhenid sy'n bwysig er lles bioamrywiaeth. Mae'r canllawiau'n ceisio taro ar gydbwysedd rhwng anghenion perchnogion a meddianwyr tir sydd am bori a bwydo eu da byw, a'r angen i amddiffyn bioamrywiaeth. Cyhoeddwyd y cod presennol yn 2011. Rydym felly am ddiweddaru'r ddogfen.

Cyn ymgynghori, gwnaethon ni ailddarllen y Cod a'i drafod â Grŵp Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru i glywed eu sylwadau cychwynnol er mwyn cynnig newidiadau iddo. Mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yn cynnwys diweddaru enwau sefydliadau a chysylltiadau perthnasol, diweddaru cyfeiriadau at ddeddfwriaeth a gofynion cyfreithiol os oes deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno ers 2011 a newidiadau i'r cyngor ar arferion gorau.

Lansiwyd ymgynghoriad yn cynnwys pum cwestiwn ar wefan Llywodraeth Cymru ar 23 Hydref 2023, a daeth i ben ar 15 Ionawr 2024. Gofynnwyd i bobl a oeddent o'r farn bod angen diweddaru'r Cod, a oeddent yn cytuno â'r newidiadau oedd yn cael eu cynnig, a oedd unrhyw newidiadau yr oeddent yn anghytuno â nhw, a oeddent yn gallu meddwl am newidiadau eraill a ddylai gael eu gwneud ac a oedd materion cysylltiedig nad oedd yr ymgynghoriad wedi ymdrin yn benodol â nhw.

## Trosolwg o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Cafwyd cyfanswm o 26 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Nid oedd pob ymateb yn ateb pob cwestiwn.

Roedd y ffurflenni ymateb i'r ymgynghoriad ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd unigolion yn cael ymateb yn eu dewis iaith. Fodd bynnag, roedd yr holl ymatebion a ddaeth i law yn Saesneg.

Roedd ymatebwyr yn cael ymateb ar we-dudalen ymgynghori Llywodraeth Cymru neu'n cael lawrlwytho ffurflen ymateb a'i e-bostio i flwch negeseuon e-bost electronig. Dangosir y rhaniad yn yr ymatebion isod.

| | |
|---|---|
| Ymatebion ar-lein | 22 |
| Ymatebion drwy e-bost i flwch post plant.health@gov.wales | 4 |

Gweler manylion yr ymatebwyr yn ôl eu math isod:

| | |
|---|---|
| Yn gysylltiedig â sefydliad / NGO | 10 |
| Heb gysylltiad â sefydliad / NGO | 16 |

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cwestiwn 1. A ydych yn cytuno bod angen diweddaru'r Cod Ymarfer er mwyn Rhwystro a Rheoli Ymlediad Llysiau'r Gingroen (“y Cod”)?

| C1 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb ateb** |
| Nifer wedi ymateb: | 23 | 2 | 1 |
| % o'r ymatebion | 88% | 8% | 4% |

Roedd mwyafrif helaeth o'r 26 a atebodd (88%) yn cytuno bod angen diweddaru'r Cod. Ni atebodd un ymatebydd (4%) y cwestiwn, a dywedodd dau (8% o'r ymatebwyr) nad oedd angen diweddaru'r Cod.

Ni wnaeth y mwyafrif a ddywedodd bod angen diweddaru'r Cod roi rheswm penodol am eu hateb yn yr adran benodol hon. Pan gafwyd rheswm pam y dylid diweddaru'r Cod, roedd yr ymatebion yn amrywio'n fawr. Dywedodd un ymatebydd y dylai polisi'r Llywodraeth fod yn seiliedig ar dystiolaeth ac ar wyddoniaeth oedd wedi'i hadolygu gan gyd-wyddonwyr. Roedd hyn yn awgrymu efallai ei farn nad oedd y Cod presennol yn bodloni'r meini prawf hyn. Dywedodd ymatebydd arall fod y Cod wedi dyddio a bod angen ei newid er mwyn i ffermwyr allu amddiffyn eu tir rhag diffyg gweithredu eu cymdogion. Dywedodd ymatebydd arall fod y Cod presennol wedi'i ysgrifennu mewn ffordd "biased", "prejudiced" ac "ignorant".

O'r 2 ymatebydd a ddywedodd nad oedd angen diweddaru'r Cod, dywedodd y naill y dylai'r canllaw gael ei ddileu'n llwyr gan ei fod yn tynnu sylw oddi wrth achosion eraill clefyd yr afu ar geffylau a gwartheg. Ysgrifennodd y llall fod ganddo ddefaid o frid cyntefig sydd i weld yn gallu clirio llysiau'r gingroen yn eu blodau heb gael unrhyw niwed.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**
*“Yes. There are many myths and misunderstandings associated with the control of ragwort. Greater clarity is needed.”* **Bumblebee Conservation Trust**
*“The choice is not between updating the guidance or leaving the current guidance in place, but whether any guidance should exist at all. The focus on Ragwort distracts from other causes of equine / bovine liver disease.”* **Unigolyn.**
*“We welcome the opportunity to comment on the changes being suggested to the code. Clearly looking at the previous version of the Code of Practice this is now necessary as the information is well out of date.”* **NFU Cymru.**

## Cwestiwn 2. A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig sydd wedi'u gwneud i'r Cod?

| C2 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Cytuno'n rhannol** | **Nac ydw** | **Heb ateb** |
| Nifer wedi ymateb: | 10 | 13 | 1 | 2 |
| % o'r ymatebion | 38% | 50% | 4% | 8% |

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 24 o'r ymatebwyr. O'r rhai a ymatebodd cafwyd 'ydw' syml i'r cwestiwn gan 10 (42%). Roedd yr ymatebion eraill yn amrywio'n fawr, gyda rhai yn dweud eu bod yn cytuno â rhai o'r newidiadau, rhai yn dweud eu bod yn cytuno â'r rhan fwyaf o'r newidiadau a rhai yn dweud bod llawer o broblemau o hyd gyda sut mae'r Cod newydd wedi'i ysgrifennu. 'Nac ydw' oedd ateb un ymatebydd gan esbonio mai'r anghysondeb rhwng prif gorff y Cod a'r atodiadau oedd y rheswm.

Roedd gwahaniaeth amlwg yn naws yr ymatebion rhwng y rheini a gafwyd gan sefydliadau ac unigolion a oedd yn poeni am fioamrywiaeth a oedd yn credu bod y Cod naill ai'n ddiangen neu'n rhy gryf yn erbyn llysiau'r gingroen a'r rheini a gafwyd gan bobl oedd â mwy o ddiddordeb mewn ceffylau a da byw ac effeithiau niweidiol posibl llysiau'r gingroen.

Er enghraifft, roedd un ymatebydd yn credu y gallai'r newidiadau arwain at gynnydd yn llysiau'r gingroen ac yn y problemau sy'n effeithio ar dda byw, wrth i ymatebydd arall ddweud bod y newidiadau sy'n cael eu cynnig yn rhai ymarferol. Dywedodd ymatebydd arall nad oedd ganddo bryderon mawr gyda'r newidiadau i'r Cod a'i fod yn croesawu'r ffaith bod llai o bwyslais ar i berchenogion/feddianwyr ymateb i bresenoldeb y planhigyn drwy gael gwared arno, a'r pwyslais cryfach ar *ystyried* rheoli yn hytrach na bod *angen* rheoli.

**Ymatebion enghreifftiol**

*"Largely welcome the direction which seems to generally recognise the need for pragmatism and the benefits of ragwort within our ecology."* **Coed Cadw**

*"Apart from the changes to the relevant organisations and contacts the FUW do not agree with the changes where the language makes it almost 'optional' whether or not to control Ragwort. The FUW believe that the changes could result in an increase in Ragwort and more of the associated problems with livestock."* **Undeb Amaethwyr Cymru.**

*"Buglife welcomes the proposed changes to reduce the demonisation of Ragwort and the increased recognition of the plant for its importance to biodiversity."* **Buglife**

*"In general you've made changes because of changes in the law etc. Apart from these I can only agree with you where the issue of it being poisonous to the touch has been debunked. You are still repeating attitudes from the people who originated that myth. The story that ragwort is poisonous to the touch is a scare story."* **Cyfeillion y Ddaear Abertawe**

## Cwestiwn 3. A ydych yn anghytuno â'r newidiadau rydym yn cynnig eu gwneud i'r Cod? A oes unrhyw newidiadau penodol yr ydych yn anghytuno â hwy a pham?

| C3 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Nac ydw** | **Heb ateb** |
| Nifer wedi ymateb: | 13 | 9 | 4 |
| % o'r ymatebion | 50% | 35% | 15% |

Ni chafwyd atebion gan 4 o bobl i'r cwestiwn hwn. O'r rhai a ymatebodd, 'nac ydw' oedd ateb 9 (41%) ohonyn nhw. Roedd 8 o'r 9 yn 'nac ydw' syml ond gwnaeth un ymhelaethu trwy ganmol y ffaith bod sylw wedi'i dynnu at werth llysiau'r gingroen i fywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

Roedd ymatebion yr 13 arall yn amrywio'n fawr ond roedd y mwyafrif yn perthyn i un o ddau grŵp: naill ai y rheini oedd yn meddwl nad oedd y newidiadau yn mynd yn ddigon pell i hyrwyddo bioamrywiaeth a gwerth llysiau'r gingroen, neu'r rheini oedd yn meddwl nad oedden nhw'n mynd yn ddigon pell i amddiffyn ceffylau a da byw rhag peryglon posibl llysiau'r gingroen. Er enghraifft, cynigiodd un ymatebydd sawl newid i'r testun a oedd yn awgrymu nad oedd yn credu bod y newidiadau i'r Cod yn rhoi digon o ddifrifoldeb i fygythiad llysiau'r gingroen i geffylau a bod yr iaith ar reoli llysiau'r gingroen wedi'i gwanhau heb reswm da. Cafwyd ymateb tebyg gan ddau atebwr arall. Ond roedd ymatebwyr eraill yn credu bod y Cod newydd yn rhoi gormod o bwyslais o lawer ar beryglon posibl llysiau'r gingroen. Nid ydynt meddai mewn llawer o sefyllfaoedd yn berygl i geffylau a da byw eraill ac ni fyddai bwyta ychydig ohono yn debygol o wneud niwed. Dywedodd un person nad oes unrhyw beth wedi'i wneud i asesu i ba raddau y mae llysiau'r gingroen yn broblem.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*“No, the amendments all seem sensible and it is good to see that the value of the plant for wildlife and biodiversity is highlighted.”* **Unigolyn.**

*“Yes. We are concerned that most of the wording regarding ragwort control where there is a medium to high risk to grazing animals/forage production to be changed from “control must be implemented” to “control may need to be implemented/considered”.* **Cymdeithas Ceffylau Prydain.**

*“This (that in many situations ragwort poses a low Instead of no threat to horses and other livestock) is clearly an incorrect change that is incongruent with the evidence. In many situations ragwort is of no threat. It is toxic in percentages of body weight, with small doses unlikely to harm. Preserved forages are the problem not the living plant or a plant growing some distance away.”* **Cyfeillion y Ddaear Abertawe**

*“We get the point that it has environmental benefits, but it is a plant that needs to be kept under control not least to prevent economic losses and welfare issues from its poisoning effects.”* **NFU Cymru.**

*"There’s too many paragraphs where “must” is removed by “should”, where it is the duty to remove ragwort the word “must” is to stay, otherwise actions to remove ragwort will be futile and hold no legal status, the word “should” is not enough to enforce action on any perpetrator in the guidance for ragwort.”* **Unigolyn.**

*“P31 para 13 Given the very high degree of risk presented to horses and other animals by the presence of ragwort in grassland for forage production, why has the stronger ‘must’ been replaced with the less strong ‘should’ in reference to taking control measures?”.* **RSPCA.**

## Cwestiwn 4. A oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau eraill y gellid eu gwneud? Nodwch nhw yma ynghyd â'ch rhesymau dros awgrymu'r newidiadau hynny.

| C4 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Oes** | **Nac oes** | **Heb ateb** |
| Nifer wedi ymateb: | 18 | 3 | 5 |
| % o'r ymatebion | 69% | 12% | 19% |

O'r 26 oedd wedi ymateb i'r ymgynghoriad, gwnaeth 8 (31%) naill ai ddim ateb y cwestiwn hwn (5 ymatebydd) neu ddweud (3 ymatebydd) nad oedd ganddynt unrhyw awgrymiadau ar gyfer newidiadau eraill. O'r 18 (69%) a ymatebodd fod ganddynt awgrymiadau ar gyfer newidiadau eraill, roedd y rhaniad yn themâu eu hatebion yn debyg i'r rhaniad yng nghwestiwn 3. Er enghraifft, roedd dau unigolyn ac un sefydliad yn credu y dylai'r Cod ddweud yn glir ei bod, o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd), yn drosedd dadwreiddio unrhyw blanhigyn gwyllt (gan gynnwys llysiau'r gingroen) heb ganiatâd perchennog neu feddiannydd y tir. Roedd un ymatebydd o'r farn bod y ddogfen gyfan yn gorbwysleisio perygl llysiau'r gingroen i anifeiliaid pori mewn caeau ac awgrymodd fod angen ailysgrifennu'r ddogfen. Awgrymodd un sefydliad sawl newid i wneud y Cod yn fwy pleidiol i lysiau'r gingroen.

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn nad oedd y fersiwn ddiweddaraf o'r Cod yn gwneud digon i dynnu sylw at beryglon llysiau'r gingroen i geffylau a da byw. Er enghraifft, dywedodd un sefydliad nad oedd y geiriad yn ddigon cryf o blaid rheoli llysiau'r gingroen mewn llawer lle, gan awgrymu bod yn *rhaid* cymryd camau i atal eu lledaeniad lle mae llysiau'r gingroen yn berygl mawr i dir pori a thir cynhyrchu porthiant. Roedd dau unigolyn o'r farn y dylai cynghorau gadw ymylon ffordd yn rhydd o lysiau'r gingroen gan fod yr hadau'n gallu chwythu i gaeau cyfagos. Dywedodd sefydliad arall y dylai unrhyw raglen i reoli llysiau'r gingroen roi blaenoriaeth i ddulliau heb chwynladdwyr. Roedd un unigolyn yn credu y dylid rhoi sylw i'r ddamcaniaeth bod defnyddio cerrig o chwareli i arwynebu traciau a ffyrdd coedwigaeth wedi cyfrannu at ledaenu llysiau'r gingroen. Mynegodd un ymatebydd unigol ei bryder bod cymydog iddo'n tyfu llysiau gingroen ar ei dir ac yn rhentu'r tir hwnnw i ysgol farchogaeth. Roedd yn holi sut gallai hynny gael digwydd.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**

*"“The code does not suitably address the Wildlife and Countryside Act and the illegality of uprooting ragwort without landowners’ permission. The code should be strengthened to make it clear that it is illegal to uproot any wild plants (including Ragwort) without landowner’s permission to prevent the inappropriate removal of the plant. There are cases of people removing wild plant species including Ragwort on nature reserves where, misled by inaccurate information about the plant, they think they are doing the right thing.”* **Buglife**

*“It needs to be rewritten!*" **Cyfeillion y Ddaear Abertawe**

*“There should be the option to enforce Ragwort control where they pose a risk to livestock grazing nearby.*" **Undeb Amaethwyr Cymru.**

*“Removal of the term ‘infested’ from the opening sentences, it suggests any presence of ragwort is an ‘infestation’”.* **Bumblebee Conservation Trust**
*“I think that the councils should keep the verges free from Ragwort and seeds blow into fields.”* **Unigolyn.**
*“Make people responsible to remove ragwort. In Worcestershire they have ragwort clearing day which encourages volunteer groups to help clear the ragwort. Some needs to be left to help the Cinnabar moth.”* **Unigolyn.**
*“Non-herbicidal methods should be favoured, to reduce the chemical usage in our landscape, as the impact from this could be equally as negative as any impacts from ragwort?”* **Coed Cadw**
*My neighbour grows ragwort on her land like a cash crop. She did spray it a few years back at my request, but it was so established it soon grew again. She rents out this land to neighbouring Riding School, horses are always grazing there. It blows over on to my land and I am constantly digging it up. Why is this allowed? How does the Riding School get a Licence when the horses are at risk?”* **Unigolyn.**

## Cwestiwn 5. Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Y cwestiwn hwn gafodd y nifer lleiaf o atebion, gyda dim ond 6 ymatebydd (23%) yn ateb. Mewn un enghraifft, yr oll y mae un unigolyn yn ei wneud yw cyfeirio at ei ateb yng nghwestiwn 4 ynghylch ei bryder y gallai chwareli fod yn lledaenu llysiau'r gingroen. Roedd un unigolyn am ei gwneud yn glir bod llysiau'r gingroen yn berygl byw i geffylau trwy sôn sut y bu i geffyl ei blant farw ar ôl cael ei wenwyno gan lysiau'r gingroen. Holodd unigolyn arall sut mae dwyn i gyfrif berchenogion tir cyffiniol sy'n gadael i lysiau'r gingroen dyfu i 'lefelau pla'.

Manteisiodd un sefydliad ar y cyfle i awgrymu y dylid diddymu Deddf Chwyn 1959 neu o leiaf ei newid yn sylweddol. Awgrymodd fod newidiadau mewn arferion ffermio yn golygu bod dibenion gwreiddiol y Ddeddf wedi diflannu, a bod y Ddeddf yn cyflymu'r dirywiad ym mhoblogaethau infertebratau yn y DU ymhellach. Mewn cyferbyniad mae unigolyn arall yn credu bod y dirwyon a roddir yn Neddf Chwyn 1959 yn rhy gymedrol. Gwnaeth un sefydliad sawl pwynt gan nodi ei fod yn credu bod llawer o wallau yn y ddogfen gyfan a'i bod yn gorbwysleisio peryglon llysiau'r gingroen yn gyson, hynny ar sail tystiolaeth annigonol. Er enghraifft, awgrymodd nad oedd unrhyw fygythiad i anifeiliaid o bori llysiau'r gingroen cyn belled â'u bod yn cael eu bwydo'n dda a dywedodd mai'r unig ffordd arall y gallai fod yn niweidiol yw pe bai'n cael ei roi i dda byw fel gwair.

**<u>Ymatebion enghreifftiol</u>**
*"My children's pony died from liver failure due to eating ragwort.”* **Unigolyn.**
*“More detail in how legal enforcement processes are taken on those responsible (neighbouring landowners particularly those who own horses, Principal Contractors managing construction sites, Highways, local authorities and Transport for Wales rail) for allowing ragwort to get to infestation levels.”* **Unigolyn.**
*“Invertebrate populations are undergoing catastrophic declines within the UK - with pollinators amongst the hardest hit. The Weeds Act 1959 was devised to tackle widespread plants which at that time had no effective control strategy and risked*

*harming food production. When agriculture was less sophisticated than it is today and there was little scientific justification even then for the five native wildflowers it targeted. Changes in modern farming practices, have rendered obsolete the original purpose of the Weeds Act. There is no evidence that the spread of any of the listed species poses a threat to modern agriculture. Under section 7 of the Environment (Wales) Act 2016 Welsh Ministers must take all reasonable steps to maintain and enhance listed species; repealing the Weeds Act in Wales would appear to be such an action."* **Buglife**

*"The only serious problem occurs when ragwort is incorporated into hay or when animals are mistreated and forced to eat anything due to starvation and it is this you should be focusing on. The scientific literature is absolutely clear on this. It supports what we actually see where ragwort is growing where cattle or horses are grazing. They do not like to eat it fresh and avoid it."* **Cyfeillion y Ddaear Abertawe**

## Ymateb y Llywodraeth a'r camau nesaf

Rydym yn croesawu'r ymatebion i'n hymgynghoriad. Rydym wedi clywed amrywiaeth o safbwyntiau gan bobl sy'n cynnig y dylai'r Cod ystyried lles anifeiliaid yn fwy a'r rheini sy'n cynnig y dylen ni roi blaenoriaeth i fioamrywiaeth. Byddwn yn parhau i ystyried yr ymatebion wrth lunio fersiwn derfynol o'r Cod i'w gyhoeddi.

## Atodiad 1

## Rhestr o'r ymatebwyr:

Cymdeithas Ceffylau Prydain
Buglife
Bumblebee Conservation Trust
The Donkey Sanctuary
Undeb Amaethwyr Cymru
Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
RSPCA
Cyfeillion y Ddaear Abertawe
Coed Cadw
16 unigolyn